

2020 Rhif (Cy. WG2016)

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020

Gwnaed

Yn dod i rym

1 Ebrill 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(2).

Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

2.—(1) Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(1) 2006 p. 42.

(2) Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

(3) Fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018 a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019.

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “£4,705” rhodder “£4,790”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “£18,833” rhodder “£19,172”.

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle “£18,833” rhodder “£19,172”.

(4) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3, yn lle “£18,833” rhodder “£19,172”.

(5) Yn Atodlen 4—


(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

“1. Caniateir i’r taliadau a ganlyn gael eu gwneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I a HIV ym mhob blwyddyn ariannol—

- (a) taliad o £23,317, neu
 - (b) pan gydymffurfir â’r gofynion a nodir ym mharagraff 5, daliad uwch o £37,826.”;
- (b) ym mharagraff 2, yn lle “£37,157” rhodder “£37,826”;
- (c) ar ôl paragraff 4 mewnosoder—

“5. Y gofynion yw bod y Person Cymhwysol—

- (a) wedi gwneud cais i gael y taliad uwch mewn cysylltiad â Hepatitis C- Cyfnod I, a
- (b) wedi cadarnhau—
 - (i) ei fod yn dioddef o symptomau iechyd meddwl y mae’n ystyried eu bod yn gysylltiedig â’r ffaith ei fod wedi ei heintio â hepatitis C o ganlyniad i gael gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig yn ystod triniaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a
 - (ii) bod y symptomau iechyd meddwl y mae’n dioddef ohonynt yn effeithio ar ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.”



Yr Athro Chris Jones
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth
Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru
Dyddiad 26/03/2020